Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Goronwy Owen
# Benllech
# Ynys Môn
# LL74 8SG

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Goronwy Owen ym mhentref Benllech, Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 116 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd sydd yn sylweddol is nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Lleolir y Cylch Meithrin a`r Cylch Chwarae cyfrwng Saesneg lleol ar dir yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae'r plant yn cael eu haddysgu mewn 5 dosbarth, pedwar ohonynt yn ddosbarthiadau cymysg o ran oedran.

Mae oddeutu 11% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod ag ar gyfer Cymru. Daw tua 27% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae tua 20% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ionawr 2008. Yn dilyn cyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth yr ysgol, penodwyd pennaeth parhaol ym Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Goronwy Owen yn 2013-2014 yw £4,512. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £9,156, a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Gynradd Goronwy Owen yn yr 21ain safle o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol mewn Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg;
- perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf;
- gan y mwyafrif o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fedrau llythrennedd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu; a bod
- yr ysgol yn cynllunio nifer o brofiadau diddorol sy'n hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a Chymru yn llwyddiannus.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn gyson yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg;
- nid yw'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod digon o sylw yn cael ei roi i ddatblygu ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg;
- nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus; ac
- nid yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n llawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol gan fod:

- arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol;
- y pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith yn seiliedig ar godi safonau a gosod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol;
- y pennaeth wedi llwyddo mewn amser byr i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff yr ysgol;
- yr hunanarfarnu presennol yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth; a bod
- y cynllun datblygu ysgol diweddar yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

Fodd bynnag:

- nid yw'r uwch dîm rheoli yn gweithredu'n ddigon effeithiol ac nid yw wedi arwain at ddigon o welliant yn y safonau;
- nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol; ac
- nid yw'r corff llywodraethol yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau Cymraeg ar draws yr Ysgol

A2 Gwella lefelau presenoldeb yr ysgol

A3 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen

A4 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl ac yn datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol

A5 Mynd i'r afael ar frys â'r materion yn ymwneud â iechyd a diogelwch

A6 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol a'r corff llywodraethol yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol i'r ysgol a herio perfformiad yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Goronwy Owen yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o’r disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â’u hoed a’u gallu. Yn gyffredinol, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth addas o’r hyn maent wedi’i ddysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o’r Gymraeg o’r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried cefndir ieithyddol llawer o ddisgyblion, mae eu medrau llafar yn y Gymraeg yn datblygu’n fuan. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion fedrau llythrennedd sy’n addas i’w hoed a’u gallu. Maent yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod i gynnig ymatebion llafar gan ddefnyddio iaith briodol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio geirfa briodol o fewn y dasg. Erbyn diwedd y cyfnod, gall y mwyafrif fynegi barn a thrafod syniadau newydd yn llwyddiannus yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu cystal yn y Gymraeg. Mae diffyg geirfa a hyder yn cyfyngu ar allu lleiafrif o ddisgyblion i sgwrsio a thrafod yn y Gymraeg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen. Maent yn darllen testunau syml yn ystyrlon. Mae’r mwyafrif yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen ystod o destunau yn gywir yn y ddwy iaith. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn cael mwynhad o ddarllen ac mae ychydig ohonynt yn gallu trafod eu hoff awduron yn aeddfed.

Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn daclus. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o’r disgyblion yn medru ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth o nodweddion ffurfiau fel llythyron ac ysgrifennu cyfarwyddiadau. Er hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn gwneud digon o gynnydd i ysgrifennu’n fwy estynedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol. Mae’r mwyafrif yn atalnodi, ac yn paragraffu eu gwaith yn addas yn ôl eu gallu. Fodd bynnag, nid yw’r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn defnyddio’r medrau hyn yn briodol i ddatrys problemau mathemategol syml ar draws yr ardaloedd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif. Serch hynny, nid yw’r mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i’r un graddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y targedau.

Er bod y disgyblion yn cyflawni gwaith o safon briodol mewn gwersi ac mewn llyfrau, mae anghysondeb yn y safonau trwy'r ysgol, yn enwedig mewn Cymraeg.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg, tra roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y 25% uchaf. Yn 2013, roedd cynnydd amlwg i'w weld yng nghanrannau'r disgyblion a gyrhaeddodd ddeilliant 6, yn enwedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol lle mae'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros y 4 blynedd diwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi bod yn gyson yn y 50% uwch tra bod perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn gyson yn y 25% isaf. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 25% isaf dros y 4 blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch, dros y 2 flynedd diwethaf, wedi gwella

**Lles: Digonol**

Mae Ysgol Goronwy Owen yn ysgol hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fo angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae llais y disgybl yn cael ei ddatblygu'n effeithiol yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn mynegi barn ac yn chwarae rhan bwysig yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol trwy nodi eu syniadau yn y 'Bocs Aur'. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi llwyddo i'w gyflawni trwy'r Cyngor Ysgol. Enghraifft o hyn yw'r 'goeden dathlu', lle mae cyfle i ddisgyblion rannu eu llwyddiannau gyda gweddill yr ysgol. Ar y cyfan, mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau priodol at eu gwaith ac maent yn dangos parch a gofal am eraill. Serch hynny, nid yw'r disgyblion hyd yma yn asesu eu cynnydd eu hunain er mwyn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau, a datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am y 4 blynedd diwethaf.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth briodol o ddigwyddiadau lleol sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i'w cymuned leol a'r gymuned ehangach. Enghraifft werthfawr o hyn yw cyfraniad y disgyblion yn yr eisteddfod leol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cynlluniau diweddar yr ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n llawn.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sy'n adnabod cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Serch hynny, nid yw medrau TGCH wedi eu cynllunio'n llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynllunio nifer o brofiadau diddorol sy'n hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a Chymru yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw'r gwaith celf yn seiliedig ar waith Catrin Williams. Cynhelir clybiau ar ôl yr ysgol fel yr Urdd a Champau'r Ddraig sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i wella eu ffitrwydd corfforol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang wedi ei hintegreiddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad brwdfrydig yr ysgol wrth gefnogi nifer o brosiectau, gan gynnwys prosiect Busnes Wythnos Maliza. Drwy'r prosiect, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau mentergarwch.

**Addysgu: Digonol**

Pan mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflymder da i'r gwersi ac mae holi effeithiol a heriol yn ymateb i anghenion yr unigolyn. Yn y mwyafrif o'r gwersi mae'r athrawon yn adeiladu yn dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion a chaiff amcanion dysgu eu cyflwyno'n glir. Lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflwyniadau'n rhy hir, cyflymder y gwersi'n rhy araf, ac nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus. Yn gyffredinol, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rôl weithredol yn eu dysgu ac i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn llyfrau'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae'r sylwadau yn cyfeirio'n uniongyrchol at y meini prawf llwyddiant ac yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae strategaethau addas i gynorthwyo'r disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith yn cael eu defnyddio yn y mwyafrif o'r dosbarthiadau.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol i gasglu ac arfarnu gwybodaeth o asesiadau a chanlyniadau profion safonedig ar gyfer tracio cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hyn yn ddigon trylwyr i adnabod a chynllunio ar gyfer anghenion penodol grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am allu'r disgyblion ac yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol, ac mae polisïau priodol yn eu lle i gefnogi’r ddarpariaeth hon. Cynigir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd ac mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy’n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol disgyblion yn dda trwy wasanaethau rheolaidd yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag ystod addas o wasanaethau perthnasol megis y seicolegydd addysgol i ddarparu cymorth ac arweiniad priodol i’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac yn trefnu rhaglenni ymyrraeth addas sy’n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae cynlluniau addysg unigol yn addas. Fodd bynnag, nid yw’r targedau bob tro yn ddigon penodol i alluogi athrawon i fesur cynnydd yn ddigon effeithiol. Mae’r ysgol yn darparu cymorth priodol i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae polisïau a gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff pob disgybl fynediad cyfartal i’r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau i gyfoethogi dysgu’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw adnoddau yn yr ardaloedd allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddigon symbylus.

Mae’r ystafelloedd dosbarth a choridorau’r ysgol yn lliwgar a symbylus, ac arddangosir gwaith y disgyblion ar y waliau yn effeithiol iawn. Mae hyn yn ennyn balchder yn y disgyblion.

Mae’r adeilad o ansawdd digonol gyda phob gofod yn cael ei ddefnyddio’n bwrpasol. Mae’r adeilad a‘r safle yn cael eu cynnal a’u cadw’n lân. Fodd bynnag, mae rhai mannau ar safle’r ysgol yn peri pryder o ran diogelwch. Mae’r arolygwyr wedi tynnu sylw’r ysgol at faterion iechyd a diogelwch yn ymwneud â drysau tân.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac mae ganddi weledigaeth addas a chlir ar gyfer datblygu’r ysgol sydd wedi ei rhannu gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. O fewn amser byr, mae’r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith ac mae wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff yr ysgol. Mae rôl cydlynwyr pwnc yn datblygu’n briodol a bellach maent yn cymryd rhan

weithredol wrth fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu ac yn cyfrannu yn fwy hyderus at waith yr ysgol. Mae effaith hyn i'w gweld yn glir yn y cynnydd sydd wedi digwydd mewn darpariaeth ar gyfer mathemateg ac ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle i godi safonau presenoldeb yr ysgol ac i wella ymddygiad y disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn cael eu monitro'n gyson er mwyn sicrhau bod safonau'n codi.

Mae gan pob aelod o staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi addas ac maent yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Yn dilyn penodiad diweddar y pennaeth sefydlwyd uwch dîm rheoli presennol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur wedi datblygu'n ddigon effeithiol ac nid yw wedi arwain at welliant yn safonau'r ysgol.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n rheolaidd ar ddadansoddi data perfformiad yr ysgol a gosod targedau gwelliant. Mae dealltwriaeth yr athrawon o ddata a pherfformiad yr ysgol yn datblygu'n briodol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae hyn yn dechrau cael effaith bositif ar safonau'r disgyblion, yn enwedig mewn rhifedd. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith ond nid ydynt bob amser yn cael eu gweithredu'n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal allanol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Yn ddiweddar, mae'r corff llywodraethol wedi derbyn adroddiadau cynhwysfawr am berfformiad yr ysgol, ac mae nifer o'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i wella eu dealltwriaeth o'r gwaith dydd i ddydd. Mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol yn datblygu'n briodol ond nid ydynt yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn briodol. Nid yw'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r adroddiad hunan arfarnu presennol yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro, ymatebion i holiaduron disgyblion a llywodraethwyr, a barn rhieni. Ar y cyfan, mae'n arfarnol, gan nodi cryfderau ac agweddau priodol i'w datblygu yng nghynllun datblygu ysgol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu trefniadau i fonitro safonau'r addysgu a dysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau monitro'n fanwl a dadansoddol, ac yn nodi cryfderau a meysydd datblygu'n briodol. Mae canfyddiadau'r broses fonitro'n cael eu trafod gydag unigolion, mewn cyfarfodydd staff, a gyda'r llywodraethwyr, ac yn bwydo yn effeithiol i mewn i drefniadau hunanarfarnu'r ysgol. Mae datblygiadau diweddar ym maes asesu ar gyfer dysgu wedi cyfrannu'n dda at allu cynyddol y disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r cynllun datblygu ysgol diweddar yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant

addas a threfniadau monitro. Mae hefyd yn cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer mesur y cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae partneriaeth lwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol a'r awdurdod lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae perthynas dda rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r 'Pnawn Paned', a sefydlwyd yn ddiweddar, yn llwyddiannus lle mae disgyblion y gwahanol ddosbarthiadau yn cael cyfle i rannu gwaith y tymor gyda'u rhieni dros baned. Trwy werthu eu nwyddau yn ystod y cyfnod hwn, mae sgiliau mentergarwch a busnes y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn gyson trwy lythyron, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd i'r rhieni i drafod gwaith a safonau eu plant.

Mae'r ysgol feithrin leol bellach wedi ymgartrefu ym mhrif adeilad yr ysgol ac mae'r cyswllt effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol feithrin yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan wrth iddynt ddechrau'n amser llawn yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sydd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch i godi safonau darllen disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau cymunedol ac mae nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, megis aelodau o griw y bad achub lleol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau dysgu defnyddiol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, megis adnoddau i'r llyfrgell a chaledwedd TGCh.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae camau penodol wedi eu cymryd i ailstrwythuro staffio i gyfateb yn well i anghenion yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r uwch dîm rheoli yn gweithredu'n ddigon effeithiol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon wedi eu cyflwyno'n ddiweddar. Mae hyn wedi arwain at adnabod anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon yn fwy effeithiol.

Gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion. Mae hyn wedi dylanwadu'n bositif ar ansawdd gwaith cynllunio'r ysgol.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer cynllunio'n ariannol nac ar gyfer monitro gwariant yn ddigon effeithiol. Mae cyllideb yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos

gorwariant sylweddol.  Fodd bynnag, mae’r ysgol yn cydweithio gyda'r awdurdod i weithredu cynllun adfer priodol i ddelio â'r gorwariant.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, cyrhaeddodd 100% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 5 mewn datblygiad mathemategol. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Fodd bynnag, 88% o ddisgyblion a gyrhaeddodd ddeilliant 5 mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, a 94% a gyrhaeddodd ddeilliant 5 mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Mae cynnydd i weld ym mherfformiad yr ysgol o gymharu â pherfformiad yn 2012 ac eithrio datblygiad personol a chymdeithasol.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn 2013 yn perfformio yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol, ac yn y 50% isaf mewn iaith llythrennedd a chyfathrebu'r Gymraeg a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 6, yn 2013, yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol ac yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Er bod cynnydd yng nghyfradd y disgyblion a gyrhaeddodd ddeilliant 6 mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, mae'r ysgol yn dal yn perfformio islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn 2013 yn perfformio yn y 25% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol, ac yn y 25% isaf mewn iaith llythrennedd a chyfathrebu'r Gymraeg. Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, mae perfformiad y merched yn well mewn datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ar ddeilliant 6.

Dros y 4 blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Fodd bynnag, nid yw perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg ar y lefel ddisgwyliedig cystal. Mae'n perfformio'n gyson islaw cyfartaledd y teulu a Chymru. Yn 2013, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ac yn dangos bod dirywiad ym mherfformiad yr ysgol dros y 4 blynedd diwethaf. Gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch yn 2013 ym mhob pwnc craidd.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol yn perfformio'n gyson yn y 25% uchaf a'r 50% uwch mewn Saesneg, tra mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn gyson yn y 25% isaf. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 25% isaf dros y 4 blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch, dros y 2 flynedd diwethaf wedi gwella ac yn cymharu'n fwy ffafriol ag ysgolion tebyg ac eithrio mewn Cymraeg.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag, mae'r merched wedi perfformio'n well dros y 2 flynedd diwethaf ar ddeilliant 6 mewn datblygiad mathemategol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefelau uwch yn y ddwy iaith, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu. Nid oes patrwm arwyddocaol ychwaith dros gyfnod o ran cyflawniadau disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl o'u cymharu â chyflawniadau gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 70 | 67<br>96%<br>98% | 3<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 70 | 66<br>94%<br>92% | 4<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 70 | 69<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 70 | 63<br>90%<br>98% | 7<br>10%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 70 | 63<br>90%<br>96% | 7<br>10%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school. | 70 | 65<br>93%<br>96% | 5<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 70 | 70<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 70 | 69<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 70 | 65<br>93%<br>91% | 5<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 70 | 46<br>66%<br>95% | 24<br>34%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 70 | 43<br>61%<br>78% | 27<br>39%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 69 | 56<br>81%<br>84% | 13<br>19%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 5 | 4 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 36% | 18% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 3 | 5 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 45% | 9% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 6 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 55% | 9% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 36% | 55% | 9% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 4 | 6 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 36% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 5 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 30% | 10% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 5<br>45% | 5<br>45% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 3<br>27% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 4<br>36% | 7<br>64% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 3<br>33% | 4<br>44% | 1<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Anthony Bate | Arolygydd Tîm |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Tegwen Morris | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.